Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

13 Awst 2008

Annwyl gyfaill,

Ymgynghoriad – Cyflwyno Mesur ynghylch ailgylchu

Yn dilyn fy llwyddiant mewn balot deddfwriaethol a gynhaliwyd yn y Cynulliad, ysgrifennaf atoch i roi gwybod fy mod ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad i'm cynnig i sicrhau Mesur ynghylch ailgylchu.

Bydd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad yn darparu gwybodaeth ar gyfer y cynigion terfynol a wneir ar gyfer y Mesur arfaethedig a gaiff ei gyflwyno gerbron y Cynulliad fel y gellir ei ystyried yn ystod mis Tachwedd.

Amgaeaf gopi o'r ddogfen ymgynghori fel rhan o'r e-bost hwn ac fe'i gwelir hefyd ar wefan y Cynulliad drwy ymweld â'r cyfeiriad canlynol:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-measures-draftrecycling.htm
Os byddai'n well gennych gael copïau papur o'r dogfennau ymgynghori, cysylltwch â'r Swyddfa Ddeddfwriaeth yn y Cynulliad. Ceir y manylion ar gyfer cysylltu isod.

Wrth baratoi eich cyflwyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ystyried y cwestiynau penodol a geir yn Rhan 3 y ddogfen ymgynghori.

I gyflwyno'ch ymateb, gofynnir i chi anfon copi electronig i: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk a rhoi 'Ymgynghoriad: Mesur Arfaethedig ynghylch Ailgylchu' fel pennawd eich e-bost.

Os byddai'n well gennych anfon eich cyflwyniad ar bapur, gofynnir i chi ei anfon at: Sarah Beasley, Clerc, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1NA.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch ymateb yw 26 Medi 2008. Ni fydd yn bosibl ystyried ymatebion sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn.

Tel: 029 2089 8025 GTN: 1208
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 029 2089 8032
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

Wrth baratoi eich cyflwyniad, gofynnir i chi gadw'r canlynol mewn cof:

- Byddem yn gwerthfawrogi ymatebion cryno. Byddwch cystal â defnyddio'r teitl a nodir uchod ar eich ymateb.

- Bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn darparu bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'w craffu gan y cyhoedd, a gellir hefyd eu gweld a'u trafod mewn cyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol. **Os nad ydych yn dymuno i ni gyhoeddi eich ymateb neu eich enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny ar ddiwedd eich cyflwyniad.**

- Gofynnir i chi nodi a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn.

- Gofynnir i chi nodi a fyddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar gerbron pwyllgor yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r clerc, Sarah Beasley, ar (029) 2089 8032.

Yn gywir

Nerys Evans AC

Tel: 029 2089 8025 GTN: 1208
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 029 2089 8032
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk